

2015 Rhif. (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant
Lodge, Ynys Môn i Gyffordd 9,
Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd)
(Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2015

Gwnaed 27 Ionawr 2015

Yn dod i rym 29 Ionawr 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A55 Llundain – Caergybi (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ionawr 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn i Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2015.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, Ynys Môn a Chyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, Gwynedd, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Dirymiadau

3. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 1983(2) drwy hyn wedi ei ddirymu.

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi Bangor, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1983(3) drwy hyn wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n berthnasol i'r

darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff iii) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1984(4) drwy hyn wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n berthnasol i'r darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau i) ac viii) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ionawr 2015

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a 2 gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddi, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1983/1772
- (3) O.S. 1983/1931
- (4) O.S. 1984/172

YR ATODLEN

i) Y darn hwnnw o gerbyffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 400 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, hyd at bwynt 17 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

ii) Y darn hwnnw o gerbyffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 17 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd hyd at bwynt 2 fetr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Ffordd Bronwydd dros y gefnffordd.

iii) Y darn hwnnw o gerbyffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 65 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth am bellter o 395 metr tua'r gogledd-orllewin.

iv) Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 460 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth hyd at bwynt 17 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

v) Y darn cyfan hwnnw o ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth.

vi) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8A, Cyfnewidfa Pont Britannia.

vii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 8A, Cyfnewidfa Pont Britannia.

viii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

ix) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

x) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 8, CYFNEWIDFA PANT LODGE,
YNYS MÔN I GYFFORDD 9, TREBORTH,
GWYNEDD) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA)
2015**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, a ddaw i rym ar 29 Ionawr 2015.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darnau hynny o Gefnffordd yr A55 Llundain – Caerdybi rhwng Cyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge yn Sir Ynys Môn a Chyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, yn Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd y Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 1983 ac yn dirymu Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi Bangor, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1983 yn rhannol, a Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1984 yn rhannol.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 27 Ionawr 2015, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan cysylltiedig, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH a Chyngor Sir Ynys Môn, Llangefni LL77 7TW neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth ddrafft', 'Offerynnau Statudol Lleol Drafft', 'Gorchymynion Traffig Parhaol', '2015').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

i) Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 400 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge, hyd at bwynt 17 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

ii) Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 17 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd hyd at bwynt 2 fetr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Ffordd Bronwydd dros y gefnffordd.

iii) Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 65 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth am bellter o 395 metr tua'r gogledd-orllewin.

iv) Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 460 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y bont sy'n cario'r gefnffordd dros yr A487 wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth hyd at bwynt 17 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y bont sy'n cario'r A5025 dros y gefnffordd hyd at Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge

v) Y darn cyfan hwnnw o ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth.

vi) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8A, Cyfnewidfa Pont Britannia.

vii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 8A, Cyfnewidfa Pont Britannia.

viii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

ix) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.

x) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8, Cyfnewidfa Pant Lodge.